Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llangadog**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog**
**Llangadog**
**SA19 9HP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llangadog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llangadog |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Medi 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus â'u cyfoedion, staff, ac ymwelwyr. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn annibynnol ac yn cael dewisiadau a chyfleoedd i fynegi eu barn gan wybod y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn deall ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant a diogelwch. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â nhw mewn modd cadarnhaol a gofalgar. Maent yn cynllunio'n dda i fodloni gofynion a diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn pennu canllawiau clir er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau i ddiwallu anghenion unigol y plant dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaethau da â'r rhieni, gofalwyr a'r ysgol. Mae ganddynt system effeithiol ar waith i adolygu'r gwasanaeth bob blwyddyn.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i fynegi eu barn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r staff a'u cyfoedion. Caiff eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion eu hystyried bob amser. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi ac mae hyn yn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu. Mae gan y plant lais cryf, ac maent yn gwybod y gwrandewir arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis a ydynt am gael grefi ar eu bwyd, ac os felly, ble ar eu plat. Mae'r plant yn cael dewis mynd allan i chwarae os byddant am wneud hynny.

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau'r rhyddid i ddewis ble i chwarae o fewn yr ystafell, gan deimlo'n ddigon cyfforddus i dynnu eu hesgidiau. Gwnaeth y plant ein cyfarch mewn ffordd gadarnhaol, gan ein gwahodd yn llawn brwdfrydedd i ymuno â'u gweithgareddau chwarae. Gwnaethant ofyn yn llawn hyder a chwilfrydedd beth oedd ein henwau, a'u defnyddio wrth chwarae pan oeddent yn pasio'r bêl atom ni ac at ei gilydd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn agored. Maent yn chwarae gyda'i gilydd ac yn cymdeithasu mewn modd cyfeillgar a charedig. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da. Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg a sut y gallan nhw ac eraill fod yn teimlo. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dweud eu bod yn teimlo'n hapus ac mae eraill yn dweud eu bod wedi blino ac y gallai fod angen cysgu arnynt. Caiff hyn ei hyrwyddo drwy ddefnyddio rhaglen i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro ac yn mwynhau cymryd rhan mewn tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod gêm pêl pen bwrdd, gofynnodd un plentyn i blentyn arall, *“would you like to play with us too?”*. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd da dan do ac yn yr awyr agored ac yn cael rhyddid i ddewis gweithgareddau a symud o gwmpas y lleoliad. Mae'r plant hŷn yn helpu'r plant iau. Er enghraifft, pan na allai plentyn estyn potel ddŵr, gwnaeth plentyn hŷn gydnabod hyn a chodi o'i gadair i'w basio iddo.

Caiff y plant gyfleoedd da a rheolaidd i ddatblygu sgiliau corfforol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau emosiynol a gallant ddilyn eu diddordebau'n llwyddiannus. Maent yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy fynd i'r toiled a golchi a sychu eu dwylo. Mae'r plant yn mwynhau ochr gymdeithasol bwyta eu cinio gyda'i gilydd, ac yn sgwrsio wrth gael eu cinio cynnes. Mae'r plant yn hyderus wrth ganu caneuon a chyfrif yn Gymraeg.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Caiff y lleoliad ei redeg gan staff profiadol sy'n deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol ac sy'n eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hylendid bwyd.
Mae'r staff yn dilyn canllawiau priodol wrth weini bwyd ac wrth helpu'r plant sydd angen mynd i'r toiled, a newid cewynnau. Darperir byrbrydau iach gan y rhieni ac mae'r staff yn mwynhau bwyta, sgwrsio a chymdeithasu wrth y bwrdd gyda'r plant. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n gyson. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau diogelu'r lleoliad ac maent yn pwysleisio bod dyletswydd gofal ar bawb dros bob plentyn. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, a chaiff y rhain eu llofnodi gan y rhieni neu'r gofalwyr.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau'r plant ac yn ymateb yn ofalus i'w hanghenion. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gadarnhaol a charedig, ac maent yn trin y plant ag urddas a pharch yn gyson. Er enghraifft, maent yn feddylgar ac yn ofalus wrth ymdrin ag anghenion personol y plant. Mae'r staff yn ymyrryd yn gyflym ac yn atal unrhyw achosion posibl o wrthdaro rhwng plant sydd am gael yr un tegan, drwy awgrymu tegan tebyg arall. Gall y staff ddweud wrthym â balchder pa mor dda y mae'r plant wedi setlo ac wedi datblygu ers dechrau dod i'r lleoliad. Gwnaeth y rhieni gadarnhau hyn a chanmol y staff am weithio'n agos gyda nhw os bydd problem. Mae'r staff yn dangos gofal a mwynhad gwirioneddol yn eu rolau.

Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant y maent yn gofalu amdanynt.
Mae'r staff yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi iddynt gynllunio mewn ffordd bwrpasol i ddiwallu anghenion y plant, yn seiliedig ar arsylwadau'r staff a'u hasesiadau o alluoedd y plant. Mae eu gwybodaeth fanwl am blant unigol yn effeithiol o ran diwallu eu hanghenion. Mae systemau ar waith ganddynt i ddarparu gofal a chyfleoedd addas i blant ag anghenion ychwanegol, os bydd angen gwneud hynny.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r lleoliad yn gweithredu o ystafell o fewn yr ysgol gynradd. Mae'n darparu amgylchedd glân, cynnes a diogel. Mae lefel dda o ddiogelwch yn y lleoliad ac mae'r brif fynedfa yn cael ei rheoli'n electronig gan y staff. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, yn ogystal ag asesiadau risg tân, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor, a chaiff cofnodlyfrau ar wahân sy'n benodol i'r lleoliad eu cadw. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gymhareb rhwng y staff gofal a'r plant yn gywir, gan sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Gall y plant fynd i'r toiledau yn annibynnol, ac mae'r staff gofal yn sicrhau bod trefniadau clir a diogel ar waith. Mae llyfr ymwelwyr, rota staff, cofrestr plant a chofnodion cofrestru staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad.

Mae'r ardal dan do yn fawr ac yn cynnwys ardaloedd chwarae wedi'u gosod ar gyfer y plant. Caiff gwaith papur cyfrinachol ei storio mewn cwpwrdd dan glo yn y swyddfa, a dim ond yr arweinwyr all gael mynediad iddo. Mae ardal chwarae awyr agored benodol ar gael i'r plant wrth ymyl yr ystafell chwarae. Gallant fynd i'r ardal yn syth o'r ystafell, sy'n eu galluogi i chwarae'n rhydd. Yma, gall y plant gymryd risgiau dan oruchwyliaeth, gan ddringo stepiau a chreu cyrsiau rhwystrau gan ddefnyddio trawstiau cydbwyso.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol i gamau datblygu'r plant, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael i ysgogi eu chwilfrydedd. Mae ardaloedd chwarae wedi'u gosod fel cornel lyfrau, toes chwarae, gwneud marciau, ardal chwarae rôl, chwarae dŵr a thywod, cegin fwd ac ardal grefftau a pheintio. Gall y plant gael gafael ar yr amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau yn hawdd ac yn annibynnol, gan eu bod wedi'u storio ar lefel isel ac o fewn eu cyrraedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth wedi gwella'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r unigolyn cyfrifol sydd newydd ei benodi yn gefnogol ac yn weladwy er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith eu hadolygu bob blwyddyn, ac roedd dyddiadau a llofnodion i'w gweld ar bob dogfen. Maent yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a'r teuluoedd ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, arfarniadau, cofnodion meddyginiaeth, cofnodion damweiniau a chofnodion digwyddiadau oll eu cwblhau'n gywir ac maent ar gael i'w gweld. Caiff yr holl systemau cofnodi eraill eu cwblhau, ac maent yn drefnus. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn ffordd gadarnhaol ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Maent yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys yn brydlon.

Mae'r arweinwyr yn rhoi arferion gorau cyfredol ar waith sy'n berthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddynt. Maent yn dilyn prosesau hunanwerthuso. Maent yn llunio adroddiad trylwyr a myfyriol ar ansawdd y gofal, gan ofyn am safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff a'u rhoi ar waith.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu'r plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae proses rheoli perfformiad ar waith ac mae'r staff a'r arweinwyr yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae gan yr arweinwyr gynlluniau wrth gefn os bydd staff yn sâl neu'n absennol. Mae pob aelod o'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae hyd yn oed y rhai sy'n llai hyderus yn dangos meistrolaeth dda iawn o'r iaith. Mae'r staff yn disgrifio'r lleoliad a'r tîm fel teulu ac yn teimlo eu bod yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn.

Mae gan yr arweinwyr bartneriaeth dda â'r ysgol, sy'n sicrhau proses bontio ddidrafferth i'r plant. Mae'r arweinwyr wrthi'n trafod sut i gymryd mwy o ran mewn digwyddiadau codi arian gyda'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb, y defnydd o ap, yn ogystal â llyfrau sy'n cynnwys adroddiadau dyddiol.  Mae adborth gan y rhieni yn dangos eu bod yn hapus iawn gyda'r ffordd mae annibyniaeth eu plant yn cael ei meithrin a'i hannog a'u bod yn teimlo bod eu plant yn ffynnu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn rhoi'r polisi disgyblu ar waith ac yn gweithredu, pan fo angen, mewn modd amserol | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau bod digon o staff addas ar gael bob amser pan fydd aelodau eraill o staff ar egwyl, |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod y staff perthnasol yn meddu ar y cymhwyster gwaith chwarae priodol |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau yr ymdrinnir â phob mater a gaiff ei godi yn ystod sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd staff yn briodol ac yn effeithiol. |
| Sicrhau bod y prosesau gweinyddol yn golygu y gall y pwyllgor chwarae rhan weithredol wrth weithredu'r busnes |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/11/2024